

A yw'r GIG yn gwella wrth fyw gyda COVID?

Yr hyn a glywsom gan bobl rhwng Ebrill a Mehefin 2022



Fformatau hygyrch

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg.

Cysylltwch â ni os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa.

Cynnwys

Ynglŷn â'r Bwrdd a'r CICau	3
Yr hyn a wnaethom	5
Gan bwy y clywsom	7
Yr hyn a glywsom	9
Beth arall mae'r CICau wedi'i glywed yn lleol	35
Dysgu o'r hyn a glywsom	37
Diolch	39
Atborth	40
Manylion cyswllt	41

Ynglŷn â'r Bwrdd a'r Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau)

Mae'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned (y Bwrdd) wedi paratoi'r adroddiad hwn ar ran Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau) yng Nghymru.

Mae'r CICau yn gyrrff annibynnol sy'n adlewyrchu barn ac yn cynrychioli buddiannau pobl sy'n byw yng Nghymru yn eu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae'r CICau'n annog ac yn cynorthwyo pobl i gael llais wrth ddylunio, cynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG.

Ceir 7 CIC yng Nghymru. Mae pob un yn cynnwys aelodau gwirfoddol lleol sy'n byw yn y cymunedau maent yn eu gwasanaethu, gyda chymorth tîm bach o staff cyflogedig. Mae pob CIC yn:



Ymweld yn rheolaidd â'r gwasanaethau iechyd i glywed gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth (a'r bobl sy'n darparu gofal) er mwyn dylanwadu ar y newidiadau a all wneud gwahaniaeth mawr.



Estyn allan yn ehangach at bobl mewn cymunedau lleol i ddarparu gwybodaeth, a chasglu barnau a phrofiadau o wasanaethau'r GIG.

Mae'r CICau'n defnyddio'r hyn maen nhw'n ei glywed i wirio sut mae gwasanaethau'n perfformio'n gyffredinol ac i sicrhau bod y GIG yn cymryd camau i wella pethau lle mae angen.



Ymwneud â rheolwyr y gwasanaeth iechyd pan maen nhw'n ystyried newid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, fel bod pobl a chymunedau'n cael dweud eu dweud o'r dechrau.



Darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion sy'n rhad ac am ddim, yn annibynnol ac yn gyfrinachol, i helpu pobl i godi eu pryderon am ofal a thriniaeth y GIG.

Mae'r Bwrdd CICau (y Bwrdd) yn bodoli i gefnogi, cynorthwyo, cynghori a rheoli perfformiad y CICau. Mae'n cynrychioli barn gyfunol y CICau ledled Cymru.

Ers y pandemig coronafeirws, mae'r CICau wedi bod yn clywed gan bobl mewn gwahanol ffyrdd. Nid ydym bob amser wedi gallu cwrdd â phobl wyneb yn wyneb, oherwydd y cyfyngiadau sydd mewn grym. Rydym wedi darganfod bod llawer o bobl wedi dysgu ffyrdd newydd o gyfathrebu a gwneud pethau'n wahanol gan ddefnyddio technoleg.

Rydym yn gwybod hefyd nad yw hyn yn golygu bod pawb wedi gallu gwneud hyn ac felly gwyddwn y gall fod rhai pobl yn ei chael hi'n anoddach cael eu clywed.

Yr hyn a wnaethom

Ers i ni fod yn byw gyda'r coronafeirws, rhai o'r ffyrdd y mae pobl wedi gallu rhannu atborth gyda'r CICau am eu barn a'u profiadau o ofal y GIG yw trwy gwblhau ein harolygon cenedlaethol a lleol, neu drwy gysylltu â ni dros y ffôn, e-bost a gwefan.

Mae mor bwysig bod gwasanaethau iechyd a gofal yn gwybod ac yn deall yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y mae angen ei wneud yn wahanol yn y dyfodol, os ydynt am ddiwallu anghenion pobl sy'n byw yng Nghymru ac ymateb i'r hyn sy'n bwysig iddynt.

Dim ond un ffordd y mae'r CICau'n clywed gan bobl leol am eu gwasanaethau GIG yw'r atborth a gawn drwy ein harolygon ar-lein.

Mae'r CICau hefyd yn casglu atborth a materion mewn ffyrdd eraill, gan gynnwys:

- drwy ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion ac ymholiadau
- ymgysylltu o fewn cymunedau lleol, trwy rwydweithiau cymunedol, cynrychiolwyr a grwpiau cymunedol lleol
- monitro cynlluniau a pherfformiad y GIG, gan gynnwys atborth a chwynion
- gwybodaeth a rennir yn lleol trwy'r cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau eraill.

Rydym yn gofyn i bobl ar draws Cymru i rannu eu barn a'u profiadau o wasanaethau gofal iechyd gyda ni. Mae'r Bwrdd a'r CICau'n rhannu'r hyn maent wedi'i glywed gyda'u rheolwyr gwasanaethau iechyd lleol, ac yn genedlaethol gyda Llywodraeth Cymru. Mae hyn er mwyn iddynt allu cymryd camau'n gyflym i ymateb lle bo angen i'r pethau a glywn.

Roedden ni eisiau gwybod fel bod gwasanaethau iechyd a gofal yn gallu cydweithio, i sicrhau bod eu cynlluniau i ddarparu gwasanaethau'n ymateb i'r pethau y mae pobl yn poeni amdanynt ac sydd bwysicaf iddynt.

Rhwng Ebrill a Mehefin 2022, clywsom gan **361** o bobl a ymatebodd yn uniongyrchol i'n harolwg. Mae'r CICau wedi clywed yn uniongyrchol gan bobl yn eu cymunedau lleol hefyd. Fe wnaethant gynnal eu harolygon eu hunain yn ogystal, i gasglu barnau a phrofiadau am wasanaethau'r GIG yn eu hardal.

Clywodd y CICau'n uniongyrchol hefyd gan bobl yn eu cymunedau lleol, trwy eu harolygon lleol eu hunain a gweithgareddau ymgysylltu eraill. Clywodd y CICau gan gannoedd o bobl yn ystod y 3 mis hyn.

Yn dilyn ymlaen o'r hyn a glywsom y llynedd, rhwng Ebrill a Mawrth 2022, rydym wedi edrych ar yr hyn y mae pobl wedi bod yn ei ddweud wrthym ac wedi ysgrifennu adroddiad i ddweud beth rydyn ni wedi'i glywed.

Mae ein hadroddiad yn adlewyrchu'r hyn glywodd y CICau gan bobl drwy'r arolwg, ochr yn ochr â'r hyn a glywsant drwy eu gweithgareddau beunyddiol mewn cymunedau lleol. Mae ein hadroddiad yn amlygu'r pethau allweddol rydyn ni wedi'u clywed gan bobl sy'n byw yng Nghymru.....**yn eu geiriau eu hunain.**

Roedd mwyafrif y sylwadau a wnaed drwy ein harolwg yn ymwneud â phobl sy'n defnyddio gofal sylfaenol neu ofal argyfwng. Roedd bron i hanner y rhai y clywsom ganddynt yn disgrifio eu profiadau o gael mynediad at wasanaethau Meddyg Teulu. Dywedodd 47 o bobl wrthym am eu sylwadau am y gwasanaeth ambiwlans, a chlywsom farn 42 o bobl am adrannau damweiniau ac achosion brys.

Yn ystod y cyfnod hwn, clywsom gan lai nag 20 o bobl am eu profiadau o dderbyn y brechiad COVID-19. Disgwylwn fod hyn

oherwydd nad oedd llawer o bobl yn gymwys i gael brechlyn atgyfnerthu rhwng Ebrill a Mehefin 2022.

Roedd gan bobl rai pethau gwych i'w dweud hefyd am y rhai sy'n darparu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru. Fe wnaethant gynnig eu diolch diffuant a llongyfarch Meddygon a Nyrsys ar eu gwaith caled.

Gan bwy y clywsom

Dyma gipolwg o'r bobl sy'n rhannu eu barn a'u profiadau o ofal y GIG yn ystod y pandemig coronafeirws drwy ein harolygon cenedlaethol.



Nid oes gennym yr un math o wybodaeth bob amser am y bobl y mae'r CICau'n clywed ganddynt yn uniongyrchol, oherwydd nid yw pobl bob amser yn dweud popeth wrthym amdany'n nhw eu hunain pan fyddant yn dod i rannu eu profiadau a'u barn gyda ni.

Yn ystod misoedd Ebrill, Mai a Mehefin 2022, clywsom gan dros **360** o bobl drwy ein harolwg cenedlaethol yn unig.

Rhannodd dros **97%** eu barn a'u profiadau yn Saesneg.

Roedd dros **71%** yn fenywod, a thua **80%** yn heterorywiol.

Dyweddodd **95%** o bobl wrthym eu bod yn cisryweddol¹.

Dyweddodd y grŵp mwyaf â chred grefyddol eu bod yn **Gristnogion**.

Roedd tua **92%** yn Wn (Cymreig, Saesneg, Albanaid, Gwyddelod o Ogledd Iwerddon, Prydeinig).

Roedd bron i **34%** yn ofalwyr, a dywedodd **28%** o bobl wrthym fod ganddynt anabled neu gyflwr iechyd hirdymor.

Dyweddodd **2%** o'r bobl a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn feichiog neu wedi bod yn feichiog yn ddiweddar.

Gallwch ddarganfod yn ein Cynllun Cydraddoldeb beth rydym yn ei wneud i glywed gan wahanol grwpiau o bobl, fel y gallwn gynrychioli amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn well. Gallwch ddod o hyd i'n Cynllun Cydraddoldeb ar ein gwefan **www.boardchc.wales**

¹ Y term a ddefnyddir i ddisgrifio pan fo person yn uniaethu â'r un rhywedd ag y cafodd ei eni.

Yr hyn a oedd yn digwydd gyda COVID-19

Rhwng Ebrill a Mehefin 2022, gwnaed llawer o newidiadau i'r cyfyngiadau COVID.

Ym mis **Ebrill**, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru nad oedd yn ofynnol mwyach i fusnesau a sefydliadau gynnal asesiadau risg COVID-19 penodol. Tynnwyd pwerau yn ôl i awdurdodau lleol yng Nghymru gau neu reoli safleoedd neu ddigwyddiadau. Roedd angen gwisgo gorchudd wyneb mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol o hyd.

Ym mis **Mai**, nid oedd bellach yn ofyniad cyfreithiol i wisgo gorchudd wyneb mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Cyhoeddwyd cyngor interim hefyd am frechlynnau COVID-19 yr hydref.

Ym mis **Mehefin**, estynnwyd profion COVID-19 yng Nghymru, fel y gallai pobl â symptomau barhau i gael mynediad at brofion llif unffordd am ddim nes diwedd mis Gorffennaf 2022.

Hefyd, ym mis **Mehefin 2022**, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y Cylch Gorchwyl terfynol ar gyfer Ymchwiliad COVID-19 y DU, a dechreuodd yr Ymchwiliad ar ei waith yn swyddogol. Rydym yn gofyn i bobl rannu eu barn a'u profiadau am y pandemig, fel y gallwn eu rhannu ag Ymchwiliad y DU.

Os hoffech chi ddweud eich dweud am sut yr effeithiodd y pandemig arnoch chi, gallwch gael rhagor o wybodaeth ar ein gwefan, drwy ddilyn y dolenni canlynol:

<https://HaveYourSayCHCWales.uk.engagementhq.com/uk-inquiry>



Yr hyn a glywsom

Yr hyn rydym wedi'i glywed am Feddygon Teulu

Soniodd mwyafrif y bobl y clywsom ganddynt yn ystod misoedd Ebrill, Mai a Mehefin 2022, am eu barn a'u profiadau o wasanaethau Meddyg Teulu. Mae mynediad at Feddygon Teulu yn parhau i achosi problemau i gleifion ar hyd a lled Cymru sydd angen gweld rhywun.

Nôl ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd [Llywodraeth Cymru](#) newidiadau i'r contract MT yng Nghymru. Nod y newidiadau hyn oedd rhoi diwedd ar yr 'ymgiprys boreol' i drefnu apwyntiad a gwella mynediad i gleifion.² Fodd bynnag, rydym yn dal i glywed gan bobl mor anodd y gall fod i gael apwyntiad yn y bore, ac nid ydym wedi gweld gwelliant o ran y rhuthr boreol am apwyntiad.

"Rwy'n ceisio cael apwyntiad Meddyg i fy mabi 4 wythnos oed ers 2 ddiwrnod ar y llinell ffôn. Rydw i mewn ciw drwy'r dydd a phan fydda i'n dod i frig y ciw, mae'n canu a chanu cyn fy rhoi yn ôl yn y ciw. Galwodd fy mhartner yn y dderbynfa i geisio cael apwyntiad, ond fe wnaethant wrthod. Ni ddylai fod mor anodd cael apwyntiad i fabi."

"Mae'n hunllef ceisio cael ateb ar y ffôn, yn enwedig i bobl sy'n gweithio."

"Yr unig ffordd i gael ateb yw ffonio bob dydd am 8yb, gan ail ddeialu nes i chi gyrraedd neges hir iawn, yna aros eto am gyfnod hir. Rwyf wedi gorfod ail ddeialu mwy na 50 o weithiau cyn nawr i gael ymuno â'r ciw..."

² Datganiad Ysgrifenedig: Diwygio'r Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) ar gyfer 2021-22 (1 Rhagfyr 2021) | LLYW.CYMRU

Rydym yn dal i glywed gan bobl eu bod yn profi problemau wrth gael mynediad at wasanaethau MT. Mae pobl wedi dweud wrthym na allant gael apwyntiad, eu bod yn gorfod aros yn hir wrth alw am apwyntiad, a'u bod yn cael gwybod yn aml fod yr holl apwyntiadau ar y diwrnod hwnnw wedi mynd.

"Mor anodd!"

"...yr wythnos ddiwethaf, bues i ar y ffôn am awr gyfan yn pwyso'r botwm ail ddeialu. Fe wnes i 220 o alwadau yn yr awr honno..."


Mae llawer o gleifion yn gofyn am roi diwedd ar yr 'ymgiprys boreol', a defnyddio technoleg i wella'r ffordd y gallant drefnu apwyntiad gyda MT.

"Rwy'n meddwl bod angen i Feddygfeydd yn RhCT ddefnyddio mwy o wasanaethau ar-lein, fel Econsult a chael eu partneru â'r gwasanaethau mynediad at MT ar-lein a welwch ar Google i gael apwyntiad. Mae'n ymddangos bod llawer ar gael ar gyfer Lloegr. Rwy'n awgrymu cael ffurflen ar wefan y Feddygfa i geisio trefnu apwyntiad fel hynny – fel y gall rhywun eich ffonio'n ôl os ydynt yn teimlo bod angen i chi weld MT."

"Gall fod yn eithaf anodd ffonio am 8yb., ond byddai ychwanegu ffurflen i'w llenwi ar-lein yn gwneud pethau llawer yn haws ar gyfer ymholiadau nad ydynt yn rhai brys."

"Byddai'n dda cael system apwyntiadau ar-lein."

"Efallai y gallai fod gan bob Meddygfa gyfleuster i roi gwybod ble rydych chi yn y ciw."



Dywedodd rhai cleifion wrthym fod eu Meddygfa yn defnyddio technoleg i gynnig gwell gwasanaeth, ond nad oedd yn bodloni eu disgwyliadau.

“Dim ymateb gan e-consult am wythnos.”

Clywsom hefyd nad oedd yr ‘ymgiprys boreol’ yn broblem i rai pobl, eu bod yn gallu ffonio pan oedden nhw eisiau ac yn dal i gael apwyntiad y diwrnod hwnnw.

“Ffoniais i’r Feddygfa am apwyntiad ganol bore – cefais weld y Meddyg Teulu y prynhawn hwnnw...”

Dywedodd rhai pobl wrthym fod y gwasanaeth yn waeth nag yr oeddent wedi’i brofi’n flaenorol gyda’u hen Feddygfa, o ganlyniad i uno practisau Meddygon Teulu.

“Mae yna ddiffyg gwasanaethau MT ym Mhenarth. Ni ddylai Heol Albert fod wedi cael cau ac mae arnom angen Meddygfa newydd ym Mhenarth. Pam mae teuluoedd wedi cael eu rhannu rhwng gwahanol Feddygfeydd?”

“Aethpwyd â’n Meddygfa leol oddi wrthym ac, ar ôl galwad ffôn i frysbenneu drwy’r dderbynfa, rydyn ni fel cleifion yn cael ein cynghori nad oes Meddygon ym Meddygfa’r Parc, sy’n gorfodi cleifion oedrannus, eiddil a bregus i deithio i Ganolfan Feddygol Sant Ioan yn Aberdâr. Mae hyn yn golygu costau ychwanegol o ran tocyn bws, petrol a pharcio, pan fo Meddygfa yn Nhrecynon sy’n berffaith addas i wasanaethu anghenion y gymuned.”

Dywedwyd wrthym fod Meddygfeydd yn cynghori cleifion i fynd i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn lle hynny, gan roi pwysau ychwanegol ar ysbytai yn ystod y gwanwyn / haf.

“Mae’n amhosib ceisio cael gweld Meddyg. Mae’n dorcalonnus na allwch chi weld ac egluro sefyllfa i Feddyg Teulu. Sut all MT ddweud wrthy ch nad oes angen gwrthfotigau arnoch ar gyfer haint heb hyd yn oed ei weld. Bu’n rhaid i mi fynd i’r Adran D ac AB ddeuddydd yn ddiweddarach, am fod yr haint wedi gwaethygu cymaint. Rhoddwyd y gwrthfotigau cryfaf i mi am ei fod mor wael, a dylai fod wedi cael ei drin yn gynharach gan fy MT.”

Dywedodd eraill wrthym eu bod yn dal i fethu â gweld eu MT wyneb yn wyneb, a chlywsom nad ydynt yn hapus â chael ymgynghoriad ffôn yn unig.

“Mae’n mynd yn anoddach i gael gweld MT. Yn fwyfwy aml, dim ond galwad ffôn a gynigir i chi, a hynny gyda Nyrs Practis fel arfer. Mae Deintyddion, Optegwyr ac ati yn gorfod gweld cleifion wyneb yn wyneb, felly pam ddim Meddygon Teulu?”

“Mae’n hen bryd i Feddygon Teulu ddychwelyd i weld cleifion wyneb yn wyneb yn fy nhyb i. Fel person 72 oed, heb gymorth aelodau’r teulu, byddwn wedi ei chael hi’n amhosib tynnu lluniau a threfnu ymgynghoriad. Rwy’n siŵr nad fi yw’r unig un!!”

“Anhawster cael apwyntiad wyneb yn wyneb gyda MT.”

Dyweddodd rhai pobl wrthym eu bod yn hoffi'r ymgynghoriadau ffôn, gan eu bod yn arbed yr amser a gymerir i ymweld â'r Feddygfa pan nad oes angen.

"Rwy'n hoffi'r brysbennu dros y ffôn. Ar y dechrau, roeddwn i'n teimlo ei fod yn amheronol, ond nawr rwy'n gwerthfawrogi'r amser mae'n ei arbed i mi a staff y Feddygfa."

"Nid ydw i wedi gweld Meddyg ers bron i 10 mlynedd. Rwy'n ffonio ac rwy'n cael ymgynghoriad ffôn."

Dyweddodd rhai pobl wrthym nad oeddent yn gallu trefnu apwyntiad MT ymlaen llaw, ac mai dim ond apwyntiadau brys yr un diwrnod oedd ar gael. Clywsom eu bod am allu trefnu apwyntiadau ymlaen llaw, i gyd-fynd â'u hamserlenni.

"Mwy o fynediad at apwyntiadau a hyblygrwydd. Nid yw iechyd yn gweithio o ddydd Llun i ddydd Gwener."

"Apwyntiadau y gellir eu trefnu ymlaen llaw yn lle gorfod ffonio am 8yb bob bore am ddvddiau."



Roedd awgrymiadau gan lawer o bobl a atebodd yr arolwg ynghylch sut y gellid gwella gwasanaethau. Roeddent yn cynnwys:

"System apwyntiadau symlach, gliriach a hawdd ei llywio ar gyfer Meddygon Teulu..... cysondeb ymhlith Meddygfeydd."

"Diweddaru systemau ffôn / cael mwy o staff / cynyddu'r amser pan allwch chi ffonio am apwyntiad ar y dydd."

Edrychodd rhai CICau ar wasanaethau MT yn eu hardal, a siarad â phobl yn eu cymunedau lleol a'r rhai sy'n defnyddio gofal sylfaenol i ddarganfod eu barn.

Ym mis Mawrth a mis Mai 2022, cynhaliodd **CIC Aneurin Bevan** arolwg o bobl yn ardal Gwent, i ganfod eu barn am gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl trwy eu MT. Gellir dod o hyd i'r adroddiad yma -

<https://aneurinbevanhc.nhs.wales/what-we-have-to-say/report-library/reports/primary-care-mental-health/>

Clywodd **CIC Aneurin Bevan** hefyd gan **209** o bobl am gael mynediad at Feddyg Teulu.

Rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2022, cynhaliodd **CIC De Morgannwg** arolwg ar-lein, i ganfod barn pobl am wasanaethau fferyllol yn ardaloedd Caerdydd a'r Fro. Roedd yn cynnwys cwestiynau am rai agweddau ar wasanaethau MT, gan gynnwys presgripsiynau a chael mynediad at wasanaethau a ddarparwyd yn flaenorol gan Feddyg Teulu o dan y cynllun mân anhwylderau, Mae'r adroddiad i'w weld yma -

<https://southglamorganchc.nhs.wales/files/reports/reports-2022-23/final-pharmacy-services-survey-reportpdf/>



Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022, mynychodd **CIC Powys** amrywiol ddigwyddiadau, a siarad â phobl am fynediad at eu Meddyg Teulu.

Ymgysylltodd **CIC Bae Abertawe** â phobl ynghylch cael mynediad at eu MT. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar eu gwefan yn fuan -

www.swanseabayhc.wales



Gwasanaethau ambiwlans

Yr ail fater mwyaf cyffredin yr oedd pobl yn sôn wrthym amdano oedd y gwasanaeth ambiwlans. Dywedodd bron i **50** o bobl wrthym am eu profiadau. Y themâu mwyaf cyffredin oedd amseroedd aros hir i ambiwlansys gyrraedd.

"Ymgwmpodd perthynas a galwodd y gofalwr 999 am ambiwlans am 9yh, roedd yn arddangos llawer o arwyddion strôc. Nid oedd ambiwlans ar gael, daeth parafeddyg ymateb cyflym am tua 2.30yb, 5 awr a hanner yn ddiweddarach, ac roedd hefyd yn bryderus ynghylch yr arwyddion strôc, daeth ambiwlans i'w chludo i'r ysbyty am 8.30yb, 10 awr a hanner gyfan ar ôl galw 999."

"Galwais i 999 ar ôl dioddef trawiad ar y galon, a dywedwyd byddai'n rhaid i mi aros 3-5 awr."

"Cwmpodd fy mam 79 oed ac ni allem ei chodi. Arhoson ni 8 awr am ambiwlans, yn y cyfamser fe gafodd 'hypo', ac nid yw gorwedd ar y llawr oer wedi gwneud unrhyw les iddi."

"Ym mis Medi y llynedd, cafodd fy ngŵr drawiad ar y galon gartref. Dywedodd y triniwr galwadau 999 y byddai'n cymryd o leiaf 6 awr i ambiwlans ein cyrraedd.

Doedd gen i ddim dewis ond ei symud a gyrru i'r Adran D ac AB fy hun. Mewn llai o amser nag y byddai wedi cymryd i'r ambiwlans gyrraedd, roedd wedi bod yn y theatr ac wedi cael stent. Fe fyddai wedi marw pe bawn ni wedi aros."

Clywsom nad oedd aelodau'r teulu'n cael mynd gyda'u hanwyliaid yn yr ambiwlans, na bod gyda nhw yn yr ysbyty. Achosodd hyn bryder a gofid iddynt. Clywsom hefyd ei bod yn anodd cael gwybod sut oedd eu hanwyliaid, a bod cyfathrebu'n broblem.

"...roedd fy nhad yn gwaedu'n fewnol, cafodd ffis, roedd yn chwydu gwaed a throchodd ei hun. Bu'n aros o 4yb nes hanner dydd am ambiwlans, yna bu yn yr ambiwlans hwnnw nes 1yb. Bu yn yr Adran D ac AB am 24 awr cyn cael mynd i ward.

Er y rhoddwyd manylion fy mam i'r Parafeddygon, ni chysylltodd unrhyw un â ni. Nid oedd yr Adran D ac AB yn ateb fy ngalwadau. Ar yr ail ddiwrnod, cefais fy nhrosglwyddo i ddesg yn yr Adran D ac AB, ac fe ganodd y ffôn am 45 munud nes i mi gael fy nhorri i ffwrdd. Ffoniodd neb fi. Am 4 diwrnod, yr unig wybodaeth a gefais oedd gan y rhif cyntaf i mi ddeialu, a oedd ond yn gallu dweud "mae'r system yn dweud ei fod yn y bae ambiwlansys o hyd" neu "mae'r system yn dweud ei fod ar wely X yn yr Adran D ac AB." Ar ddiwrnod 4, gofynnais a allai Meddyg ddweud wrthyf a oedd yn fyw ai peidio, ac felly fe wnaeth Meddyg ein ffonio o'r diwedd."



“Cafodd fy ngŵr, sy’n dioddef o Fethiant y Galon cronig, ei dderbyn fel achos brys ychydig ar ôl y Nadolig, ar ôl cwmpo gartref. Heb yn wybod i mi ar y pryd, roedd wedi dioddef trawma difrifol i’w frest....Roedd ein plant mewn oed gyda ni gan ei bod hi’n Nadolig, a chan fod ei gyflwr wedi gwaethygu, fe benderfynon ni fod angen ffonio 999 am gymorth.

Ffoniodd fy merch, gan ddisgrifio symptomau ei thad, a dywedodd y triniwr galwadau wrthi fod yna amser aros o 3-5 awr....Roeddem i gyd yn bryderus iawn ac ni allwn gofio pa mor hir fuon ni’n aros, ond roedd llai na 2 awr wedi mynd pan gyrhaeddodd y Parafeddyg a chynorthwy-ydd o’r Fyddin. Bu’r Parafeddyg yn olrhain curiad ei galon a chytunodd fod angen iddo fynd i’r Adran D ac AB... a chymerais i y gallwn i fel ei ofalwr fynd gydag ef yn yr ambiwlans, fodd bynnag, dywedwyd wrthyf nad oedd hyn yn bosib oherwydd cyfyngiadau Covid. Fe wnaethom ofyn a allem ddilyn yn y car, a dywedwyd ‘na’ eto am na allem fynd i mewn i’r Adran D ac AB oherwydd cyfyngiadau Covid.

Roeddwn yn bryderus iawn, oherwydd mae fy ngŵr yn dibynnu arnaf am bopeth ac mae’n fyddar, felly ni all glywed yr hyn a ofynnir iddo, yn enwedig drwy fasg. Roedd wedi dychryn a drysu pan eglurais nad oedden ni’n cael mynd gydag ef. Gofynnais i’r Parafeddyg i ba ysbyty y byddai’n mynd iddo? Atebodd fod angen iddi fynd ag ef i’r ysbyty gyda’r amseroedd trosglwyddo lleiaf, gan fod angen iddo gael ei weld cyn gynted â phosib. Ysbyty Llwynhelyg oedd hwn, ac esboniais fod cyflwr calon fy ngŵr yn golygu bod ei gofnodion helaeth yn cael eu cadw yn Nhreforys a Glangwili, ond fe gadarnhaodd ei fod yn mynd i Llwynhelyg ac y byddent yn gallu gweld ei gofnodion... Derbyniwyd fy ngŵr i’r ysbyty a chadwyd ef yno am 5 wythnos arall, mewn ward ochr, a bu’n gyfnod llawn pryder a gofid i ni fel teulu... Ni ddylai unrhyw deulu byth gael ei drin fel y cawsom ni. Ble mae’r tosturi wedi mynd?”

Dyweddodd eraill wrthym am eu profiad o aros amser hir am ambiwlans, ac yna aros amser hir yn yr ambiwlans y tu allan i'r Adran D ac AB, i gael eu derbyn i'r ysbyty.

"Ffoniais i ambiwlans ar nos Wener ar ôl cwmpo yn yr ardd, am fy mod i mewn poen ofnadwy ar ôl torri 5 asen! O'r diwedd, cefais fy nghludo i ysbyty Treforys am 2yb., ar y dydd Llun canlynol, dydd Llun 11 Ebrill '22. Yna, bu'n rhaid i mi aros yng nghefn yr ambiwlans am 14 awr! Gan deithio'n ysbeidiol ar draws y maes parcio ar droli ysgrytlyd, i gael pelydr-x, sganiau ac ati. Anghredadwy, rwy'n 81 oed...wir i chi!"

"Mae angen brysbennu hyblyg. Roedd angen pelydr-x / sgan brys ar fy mam. Yn lle aros bron i 10 awr am Ambiwllans ac 16 awr y tu allan i'r ysbyty, gallai fod wedi mynd yn syth am sgan / pelydr-x."

"Yn hollol warthus. Llithrais i lawr y grisiau gartref ac roedd y poen mor ddrwg roeddwn i'n meddwl fy mod wedi torri fy nghefn. Ffoniais i 999 a dywedwyd y byddai'n rhaid i mi aros 5 awr. Yna cawsom alwad i ddweud y byddai'n 8 awr. Llwyddodd fy mab a'i ffrind i fy nghael i mewn i'r car i fynd i'r Adran D ac AB. Pan gyrhaeddwn ni, roedd 12 ambiwlans yn eistedd yno'n segur."



Dyweddodd rhai pobl wrthym eu bod yn cydnabod yr arosiadau hir, ac yn canmol y trinwyr galwadau am beidio â chynhyrfu a dweud wrthynt beth oedd angen iddynt ei wneud.

“Roedd staff y ganolfan alwadau’n wych pan ddechreuodd ein mab dagu. Dywedwyd wrthym y byddai’n rhaid aros 4 awr am ambiwlans, ac y byddai’n gyflymach pe gallwn fynd ag ef i’r ysbyty ein hunain, a dyna a wnaethom.”

“Roedd fy ngŵr yn dioddef poenau yn ei frest felly galwyd 999. Er bod y person a dderbyniodd yr alwad yn gwbl ddigynnwrf ac yn cynnig cyfarwyddiadau cynhwysfawr – pan edrychodd i weld faint o amser fyddai’n rhaid i ni aros am ambiwlans, dywedwyd wrthyf y byddai rhwng 4 - 7 awr, ac awgrymodd y dylwn i gludo fy ngŵr i ysbyty Treforys fy hun.”

Dyweddodd eraill wrthym eu bod yn deall y rhesymau pam fo’n rhaid aros yn hir am ambiwlans, ac fe wnaethant gynnig awgrymiadau ar sut i wella pethau i gleifion.

“Mae angen ehangu adrannau brys, mae angen i ambiwlansys allu dadlwytho a bod yn ôl ar y ffordd heb orfod aros y tu allan i ysbytai am oriau.”

“Mae perygl i mi ddatgan yr amlwg! Mae angen cynyddu nifer y Parafeddygon a’u cerbydau. Mae angen rhoi trefn ar nifer y cleifion a dderbynnir i’r ysbyty, o’r ambiwlans, rhwch well offer yn yr ambiwlansys, ac mae angen gwella’r system o’r ambiwlans i’r gwely ysbyty!”

Weithiau, roedd goblygiadau sylweddol i'r cleifion hynny a oedd yn aros oriau am ambiwlans.

"Ar ddydd Sadwrn 21 Chwefror, arhosodd fy ngŵr 7 awr am ambiwlans. Erbyn iddo gyrraedd yr ysbyty, roedd ei haint wedi datblygu'n sepsis."

"Bues i wrth ymyl yr heol am ddwy awr yn aros am ambiwlans ar ôl dioddef anaf, a chefais wybod wedyn fy mod wedi torri fy nghefn. Gallai'r oedi wedi arwain at anaf a fyddai wedi newid fy mywyd ond, yn ffodus, nid felly y bu."

"Ar ôl cwmpo lawr y staerau, roedd poen gan fy mam yn ei gwddf / pen. Nid oedd yn gallu symud, ac ni allem gael ambiwlans am oriau ar ôl ffonio 999. Roedd ganddi ddau doriad yn ei hasgwrn cefn C, toriad yn ei sternwm a dau doriad yn ei hasgwrn cefn thorasig. Gadawyd hi ag anafiadau sydd wedi newid ei bywyd. Dim ambiwlans ar gael yng Nghastell-nedd, sefyllfa ofnadwy i fod ynddi. Ac o wrando ar eraill, nid yw'r sefyllfa'n gwella llawer."

"...Wnes i ddim ffonio ambiwlans, am fy mod i'n teimlo y byddai'n anghywir gwneud hynny, er fy mod i'n gwaedu. Nid oeddwn i'n gallu gyrru, a doedd gen i neb i fynd â fi, felly fe es i mewn tacsi a gostiodd £25. Dim ond 13 milltir i ffwrdd rwy'n byw, felly rwy'n poeni am y dyfodol, os bydd yr Adran D ac AB yn cauerbyn hyn, doedd dim bysiau."

Dyweddodd rhai cleifion wrthym eu bod yn wynebu penderfyniad anodd a llawn risg weithiau, p'un i fentro mynd i'r Adran D ac AB eu hunain neu aros i'r ambiwlans gyrraedd.

"Roedd gen i haint difrifol ar yr ysgyfaint ym mis Tachwedd 2021, ac nid oedd fy Meddyg yn fodlon dod i fy ngweld. Roeddwn i'n sâl iawn. Bu'n rhaid i fi frwydro gyda'r Meddyg i gael gwrthfotigau, fe'u cefais yn y diwedd, ond ni welais welliant. Roeddwn i eisiau siarad â Meddyg, ond gwrthododd y derbynnydd a dywedodd y dylwn i ffonio 111 neu 999. Ffoniais i 111, a siaradais â rhywun a ddywedodd y byddai ambiwlans yn cymryd hyd at 7 awr i'm cyrraedd, a bod hyd at 15 ambiwlans wedi'u parcio y tu allan gyda chleifion, felly fe fentrais a cheisiodd fy mhartner a minnau fy nghadw i'n fyw."

"Roeddwn i'n gofalu am fy wyres fach pan ddechreuodd wneud sŵn gwichian gwael iawn, ac roedd yn ymddangos ei bod yn cael trafferth anadlu. Ffoniais i 111. Gallent ei chlywed a galwyd 999. Arhoson nhw ar y ffôn gyda mi a chyrhaeddodd Parafeddyg yn fuan. Cyrhaeddodd ei rhieni a chynghorwyd nhw i'w gyrru i'r ysbyty, gan nad oedd ambiwlans ar gael. Roedd y gofal a gawsom yn wych, o fy ngalwad gyntaf, ond roedd fy mab dan straen am iddo orfod gyrru'r holl ffordd o Sgeti, ychydig dros y ffordd o ysbyty Singleton, i Dreforys. Digwyddodd yr un peth pan gafodd hi ffit. Mae'n ffordd bell i yrru gyda babi sy'n sâl."

Clywsom hefyd fod rhai cleifion yn cael eu trin yn yr ambiwlans y tu allan i'r ysbyty, oherwydd y pwysau ar Adrannau D ac AB.

"Cafodd fy ewythr ambiwlans ymateb 999 i'w gludo i ysbyty Glangwili.

Diolch i'r drefn, fe ymatebodd i'r criw Parafeddygon a chafodd ei asesu, ei archwilio a'i drin yn yr ambiwlans, oherwydd pwysau ar y safle.

Roedd 8 ambiwlans y tu allan.

Bu'r criw Parafeddygon yn gofalu amdano'n rhyfeddol am 6 awr.

Daeth Meddyg i'w asesu a rhoi canlyniadau.

Daeth Nyrs i roi meddyginiaeth iddo".

Er bod mwyafrif y bobl a gwblhaodd yr arolwg yn ystod y cyfnod hwn wedi dweud wrthym am oedi a phrofiadau negyddol eraill gyda'r gwasanaeth ambiwlans, clywsom lawer o atborth cadarnhaol hefyd.

"Ar yr adegau pan oeddwn i eu hangen mewn argyfwng eithafol, maen nhw wedi bod yno o fewn 5 munud. Mae'r gwasanaeth ambiwlans wedi achub fy mywyd. Rwy'n hynod ddiolchgar ac yn falch o'r driniaeth wych a gefais yn yr ambiwlans a'r ysbyty."

"Cefais fy nhrosglwyddo'n gyflym iawn o gampfa Machynys, lle yr ymgwmpais ar felin draed a chefais CPR gan gyd-aelod o'r gampfa. Cyrhaeddodd yr ambiwlans yn gyflym ac fe'm cludwyd i ysbyty Tywysog Philip ac i MAU yn ddidrafferth."

"Mae cyflwr y galon difrifol a chymhleth ar fy mab, a dim ond 18 mis oed ydyw. Ers mis Ebrill diwethaf, rydym wedi gorfod galw am ambiwlans brys mwy na 6 thro, am ei fod yn sâl iawn. Cafodd ei dderbyn y tro diwethaf ym mis Mawrth 2022. Mae pob tîm sydd wedi mynychu wedi bod yn wych. Maent yn gwranddo ar gyflwr fy mab ac yn darllen yr holl wybodaeth feddygol sydd gen i amdano, sy'n golygu llawer. Mae fy mab yn dioddef o orbryder difrifol hefyd, ac maent yn anhygoel am gyfathrebu ag ef. Yr ail dro y bu'n rhaid i ni ffonio 999, cawsom ein rhoi mewn ciw hir i aros gan y triniwr galwadau, er i mi ddweud mor ddifrifol oedd cyflwr fy mab ac mor sâl ydoedd. Roedd pethau mor wael fel y bu'n rhaid i mi ffonio'n tîm Cardiaidd yng Nghaerdydd, i'n cael i frig y ciw. Pan gyrhaeddodd y Parafeddygon, a oedd wedi trin fy mab o'r blaen, roeddent mor bryderus nes iddynt gymryd arnynt eu hunain i gael ein cyfeiriad cartref wedi'i fflagio, fel na fyddai'n rhaid i ni aros pe byddai angen i ni ffonio eto. Rwy'n falch eu bod wedi gwneud, oherwydd roedd ein galwad nesaf yn ddifrifol. Mae eich Parafeddygon yn anhygoel, a dylid rhoi llawer o glod iddynt."

"Daeth Parafeddygon i'm cartref ym mis Ebrill. Roeddwn yn cael trawiad ar y galon, ond roedd angen llawdriniaeth ar bont fy ysgwydd, er nad oeddwn yn sylweddoli ar y pryd. Roedden nhw'n wych – o fewn 2-3 awr i'r alwad, cafodd fy ngŵr, sy'n hollol fyddar, neges destun i ddweud fy mod i ar y ffordd i ward yn YAC – 60 milltir i ffwrdd, ar ôl cael stent. Roedd y tîm gofal yn ardderchog hefyd, heb sôn am waith rhagorol y Parafeddygon."



Gofal brys ac argyfwng

Clywsom gan lawer o bobl am eu profiadau mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys (D ac AB). Roedd rhai pobl yn canmol staff y GIG, sy'n gweithio mewn amodau mor heriol.

"Roedd yr holl staff D ac AB a oedd yn gweithio ar 2/5/2022 yn anhygoel. Rwy'n gwybod y gall fod yn hynod anodd, gan fy mod yn Nyrs fy hun, ond roedd y staff i gyd yn garedig ac yn ofalgar."

"Ar ôl llithro a thorri asgwrn yn fy nhroed ym mis Tachwedd 21, fe fynychais i'r Uned Mân Anafiadau yn Aberteifi.

Roedd y staff yn wych, yn gwrtais ac yn barod i helpu.

Y diwrnod canlynol ffoniodd Meddyg, a oedd yn wych, i roi cyngor da i mi. Siaradais â Nyrs yn YCG am y poen ym mis Ionawr, a gwnaed apwyntiad i mi ar y dydd Mawrth canlynol am 9.00yb."

"Gofal o'r radd flaenaf, ond roedd aros am 5 awr yn ofnadwy."

"Mynychais i ysbyty Llwynhelyg am fy mod yn amau i mi gael strôc. Arhosais i oriau lawer i weld rhywun. Ar ôl yr holl aros, roedd y sylw a gefais o'r radd flaenaf.

AROS RHY HIR. PRINDER STAFF. BEIRNIADOL."

"Cyrhaeddais i am 2.30yb, cefais fy mrysbenneu awr yn ddiweddarach, pelydr-x a thriniaeth erbyn 6yb. Roedden ni'n ffodus iawn ei bod mor dawel. Roedd y staff i gyd yn ofeillgar ac yn effeithlon."

Clywsom mai un broblem oedd prinder staff. Cafodd hyn effaith ar amseroedd aros yn yr Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.

"Arhosiad byr am asesiad. Arhosiad hir o 5 awr cyn gweld arbenigwr. Cefais wybod nad oedd unrhyw staff ar gael."

"Cyrhaeddais yr Adran D ac AB ar 2 Mawrth, a bues i yno am 10 awr cyn cael diagnosis bod gen i diwmor yn fy mhenglog. Yna, treuliais 14 awr arall yn yr Adran D ac AB, tra eu bod yn ceisio dod o hyd i wely i mi. Yna, cefais fy nhrosglwyddo i ward dydd, i wneud lle yn yr Adran D ac AB, a threuliais i drwy'r dydd uno nes iddynt ddod o hyd i wely i mi ar ward. Er gwaethaf yr aros hir, dim pryd o fwyd na diod am 36 awr, a chael fy holi a allwn i fynd adref (gyda thiwmor), gallwn weld nad oedd yn agos at ddigon o staff yn yr ysbyty, a bod y staff yn rhy brysur o'r hanner."

Dywedodd llawer o gleifion wrthym eu bod wedi aros amser hir iawn i gael sylw yn ystafell aros yr Adran D ac AB.

"Yn hollol ofnadwy! Rwyf wedi bod yn eistedd yma am 17 awr, a dywedwyd efallai y bydd yn rhaid i mi gael fy nerbyn am nad ydynt wedi cael fy nghanlyniadau eto, a gallent gymryd 24 awr. Rwyf wedi bod yn eistedd mewn cadair ar faglau mewn poen mawr am yr 17 awr rydw i wedi bod yma! Mae eich gwasanaeth yn ddieflig."

"Fe ddes i i'r Adran D ac AB ar ôl dioddef arwyddion o fân drawiad ar y galon. Bu'n rhaid i mi aros bron i 10 awr cyn gweld Meddyg. Amser aros anghredadwy."

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn gorfod aros cyfnodau hir o amser i gael sylw, weithiau heb i'w hanghenion sylfaenol gael eu bodloni.

"Anfonwyd fy mab sy'n oedolyn awtistig i'r Adran D ac AB i weld llawfeddyg, am fod y MT yn amau bod arno lid y pendics. Bu'n rhaid i ni sefyll allan yn yr oerfel a'r glaw am fod swyddog diogelwch wedi anghofio dweud wrth rywun ein bod ni yno, dim ond ar ôl i mi fynd i mewn y gwnaethant sylweddoli. Prin y gallai fy mab sefyll ac roedd yn sâl iawn. Cafodd ei frysbenneu'n gyflym iawn gan nyrsys a'i anfon yn ôl i'r brif ardal aros, a oedd yn brysur iawn, yn olau ac yn swnllyd.

Roedd wedi'i orlethu, a bu'n rhaid i mi esbonio wrth nyrs - o flaen pawb!!! Dywedais na fyddwn yn ei adael am ei fod yn awtistig ac angen cymorth... dylai cyflyrau meddygol fy mab fod yn breifat ac ni ddylai fod yn rhaid i mi eu hesbonio o flaen ystafell aros orlawn.

Bu'n rhaid iddo aros dros 6 awr ar sedd mewn ystafell aros oer a phrysur, gyda llid y pendics aciwt, cyn iddo gael troli mewn Adran D ac AB (Mae hynny'n ffaidd.)

Bu'n rhaid i mi ei adael yno. Nid yw fy mab yn siarad oni bai ei fod yn ateb cwestiwn syml - a gall fod yn rhaid ei aralleirio rhywfaint cyn iddo ddeall. Felly, oni bai y gofynnwyd iddo'n gyson (ac rwy'n amau hynny'n fawr) sut mae'r boen? Byddai wedi gorwedd yno a dioddef. Yn ffodus, cafodd lawdriniaeth yn y bore."

"2 ddiwrnod a dros nos mewn un ysbyty, heb fwyd/diod boeth. Wrth gwrs, o weld y broblem roeddwn i'n ffodus i gael fy nghar (dim ambiwlans ar gael) er mwyn casglu nwyddau iddi hi a chleifion hŷn truenus eraill oedd ar eu pen eu hunain (am nad oedd hawl cael unrhyw gymorth tu mewn) dim ond un achlysur oedd hwn... a ailadroddwyd mewn 2 ysbyty arall yn fuan ar ôl y profiad hwn..."

"Mae hyn yn ymwneud ag ysbyty Y Faenor. Mae'n flin gen i ond dydw i ddim yn gwybod beth sy'n digwydd i'n GIG ni heddiw. Sut allwch chi ddisgwyl i gleifion â chyflyrau difrifol dderbyn eu gwrthfotigau IV ar gadair mewn coridor am 12 awr? A threulio'r 24 awr nesaf, gan gynnwys dros nos, ar yr un gadair ac yna chael gwybod nad oes gwely ar eich cyfer chi heno chwaith? Mae'n gywilyddus disgwyl i berson fyw allan o fag, fel crwydryn, heb unrhyw ddarpariaethau hylendid personol addas."

"Es i â fy merch i'r Adran D ac AB yng Nglangwili ar ôl cael cyngor i wneud hynny gan 111. Roeddent am anfon ambiwlans allan iddi, gan mai dim ond 2.5 oed yw hi, a dywedwyd fod angen iddi gael sylw cyn gynted â phosib. Fodd bynnag, rydyn ni'n byw gerllaw, felly aethom â hi ein hunain. Pan gyrhaeddod ni, roedd yr Adran D ac AB yn hynod o brysur, cafodd ei brysbennu o fewn 30 munud, ac fe'm sicrhawyd y byddai'n cael ei gweld yn gyflym gan ei bod yn ifanc. Fodd bynnag, 7 awr yn ddiweddarach, roedden ni'n dal i aros iddi gael sylw, erbyn hyn roedd hi'n sgrechian mewn poen ac roedden ni wedi bod yn eistedd ar y llawr oer yr holl amser hyn, ac ni chynigwyd unrhyw beth iddi fwyta na'i yfed. O'r diwedd cafodd sylw am 3yb., a'i hanfon adref gyda meddyginiaeth. Roedd yn amlwg eu bod yn brin o staff ac ystafelloedd. Roedd cleifion yn cael eu trin yn yr ardal aros ac roedd yn ofnadwy gweld hynny. Anghofwyd yn llwyr am urddas y claf."

"Toiledau brwnt yn gorlifo â baw.
Aros 10 awr a mwy.
Heb gael cynnig bwyd na dŵr."

“Mae’n hollol warthus. Mochaidd, sbwriel ym mhobman, ar siliau ffenestri a’r llawr, dim sebon yn y toiledau, er gwaethaf rhybuddion ym mhobman i olchi dwylo. Dyn oedrannus anabl (wedi colli ei goes y llynedd oherwydd Covid) wedi’i drin heb unrhyw ofal, empathi nac urddas, a threuliodd 31 awr, ie 31 awr, yn yr Adran D ac AB cyn cael ei drosglwyddo i ward, lle mae bellach wedi dadhydradu a drysu. Aeth ei ferch â bwyd iddo i’r Adran D ac AB, a dywedwyd wrthi am fynd a byddent yn gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei fwydo. Fodd bynnag, gadawodd y staff y bwyd ar y llawr, heb feddwl sut y byddai’n ei gyrraedd, ac yn amlwg ni aethant yn ôl i’w weld eto am oriau... Anrhefn llwyr.”

Dywedodd pobl wrthym nad oedd yr Adran D ac AB yn gallu lletya nifer y bobl a oedd yn bresennol pan oeddent yno.

“Mynychais i’r Adran D ac AB yn y nos (20:00 o’r gloch) gydag aelod o’r teulu, a oedd wedi gweld MT yn gynharach y diwrnod hwnnw, a chynghorwyd ef i fynd i’r Adran D ac AB pe bai ei gyflwr yn gwaethygu. Dywedodd y derbynnydd ei bod yn debygol y byddai’n eistedd yn yr ystafell aros drwy’r nos, oherwydd nifer y cleifion. Roedd angen troli arno, gan nad oedd yn gallu eistedd. Nid oedd yr un troli gwag yn yr adran. Roedd ambiwlansys yn ciwio y tu allan i ddadlwytho cleifion, ond doedd unman iddyn nhw fynd chwaith!!”

“Yn orlawn â chleifion, rhai wedi bod yn aros mwy nag 20 awr heb i unrhyw un ddod i weld sut ydyn nhw. Mae 1 wraig sydd â chlefyd y siwgr wedi bod yn aros ers nos Sadwrn am 6yh., mae bellach yn ddydd Sul am 16.00yh, mae’n draed moch llwyr.”



Edrychodd rhai o'r CICau ar wasanaethau gofal brys yn eu hardal, a siarad â phobl yn eu cymunedau lleol a'r rhai sy'n cyrchu gofal brys i ddarganfod eu barn.

Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd **CIC Aneurin Bevan** adroddiad ar eu hymweliadau rhithwir ag Ysbyty'r Faenor, sy'n cynnwys cyfeiriad at yr Adran D ac AB. Mae'r adroddiad i'w weld yma -
<https://aneurinbevanchc.nhs.wales/what-we-have-to-say/report-library/reports/virtual-visits-at-guh-april-2022/>

Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddwyd adroddiad ar brofiadau cleifion mewn Adrannau Brys ac Unedau Mân Anafiadau hefyd. Mae'r adroddiad i'w weld yma -
<https://aneurinbevanchc.nhs.wales/what-we-have-to-say/report-library/reports/winter-patient-experience/>

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau gofal brys ac argyfwng yn y lle cywir, y tro cyntaf. Mae wedi datblygu 'chwe nod ar gyfer gofal brys ac argyfwng', gyda chymorth cyllid cylchol o £25m. Cliciwch ar y ddolen hon i gael gwybod mwy - <https://gov.wales/written-statement-six-goals-urgent-and-emergency-care-and-expectations-system>

Pethau eraill a ddywedwyd wrthym

Dywedodd pobl wrthym hefyd am eu profiad o amseroedd aros hir am lawdriniaeth, triniaeth a chanlyniadau. Mae hyn yn parhau i fod yn broblem i lawer o bobl wrth i'r GIG adfer o'r pandemig COVID-19.

"Rwyf wedi bod yn aros am ganlyniadau biopsi o'r brostad ers 7 Chwefror, mae 8 wythnos a 2 ddiwrnod wedi mynd, sy'n chwerthinllyd... mae peidio â chael canlyniadau'n fy ngwneud i'n sâl."

Clywsom hefyd gan lawer o bobl am eu profiadau o dderbyn gofal llygaid, gan gynnwys llawdriniaethau cataract. Dywedwyd wrthym am yr oedi hir cyn cael triniaeth, a gorfodwyd rhai cleifion i dalu'n breifat oherwydd yr oedi. Roeddent yn poeni y gallent golli eu golwg pa byddent yn aros am driniaeth y GIG.

"Ym mis Mai y llynedd, ysgrifennodd fy Optegydd at yr Ysbyty i ddweud na allai ddweud a oedd fy ngolwg yn gwaethygu oherwydd cataract neu broblemau glawcoma sy'n gwaethygu. Gofynnodd yr Optegydd am i atgyfeiriad gael ei wneud. Roeddwn yn gwerthfawrogi y byddai yna oedi oherwydd COVID, ond erbyn mis Tachwedd, roeddwn yn poeni fod fy ngolwg wedi gwaethygu. Fe wnes i wirio gyda fy Optegydd ei fod wedi fy atgyfeirio a cheisio cysylltu â'r ysbyty fy hun, gan nad oeddwn wedi clywed dim. Ar ôl cael fy nhrosglwyddo o un man i'r llall gan nifer o bobl, cefais siarad ag ysgrifennydd y Meddyg Ymgynghorol (a oedd yn gweithio gartref), a ddywedodd nad oeddwn hyd yn oed ar y rhestr frys ar gyfer apwyntiad. Ni allwn beryglu fy ngolwg yn gwaethygu eto, ac nid oedd dewis arall ond ceisio cymorth yn y sector preifat. Dywedwyd wrthyf yn briodol fod angen dwy lawdriniaeth cataract arnaf, a thalais amdanynt fy hun."

Clywsom hefyd gan bobl am eu hapwyntiadau a'u gofal dilynol, oedi wrth drosglwyddo gofal, gofal deintyddol, triniaeth a gofal i fenywod, fferylliaeth, brechlynnau a COVID-19, profiadau cleifion mewnol a gwasanaethau iechyd meddwl.

Deintyddol: "Rwyf wedi cofrestru gyda deintydd GIG. Rwyf wedi cael nifer o heintiau gwm difrifol [ac] mae arnaf angen tynnu dant cymhleth. Cefais fy atgyfeirio at BIBC i dynnu'r dant. Mae'r boen drwy'r amser yn gwneud i mi deimlo'n sâl, dywedir wrthyf y bydd yn flwyddyn arall o leiaf cyn y caf ei dynnu."

Iechyd meddwl: "Gwael iawn. Arhoson ni mewn ystafell aros orlawn gyda llawer o blant ac afiechydon. Ceisiodd fy mab ladd ei hun yn ddiweddar. Gwelsom y MT am 2.10yh., dros y ffordd ym meddygfa Padarn, daethom yn syth yma a dywedwyd wrthym y byddai'r tîm argyfwng yn dod, ond rydyn ni'n dal i aros nawr am 6yh! Dim opsiwn iddo fynd i Gorwelion na chael ei weld gartref."

Iechyd menywod: "Sawl apwyntiad gynecolog wedi'u canslo.

Ymgynghoriadau ffôn heb unrhyw apwyntiadau wyneb yn wyneb.

Nid oedd llawdriniaeth yn opsiwn oherwydd Covid, bu'n rhaid mynd ar fenopos cemegol, a gafodd effaith negyddol enfawr ar fy mywyd.

Fe wnes i ddarganfod lwmp yn fy mron, a oedd yn golygu na ellid bwrw ymlaen â'r driniaeth endometriosis.

Dywedwyd y byddai'n rhaid aros 18 mis am apwyntiad ar gyfer fy mron, sy'n golygu na allaf fwrw ymlaen â thriniaeth arall.

Llawer iawn o straen, poen ac anghysur."

Beth arall mae'r CICau wedi'i glywed yn lleol

Clywodd y CICau gan bobl yn eu cymunedau lleol am wasanaethau'r GIG hefyd. Cynhaliodd rhai o'r CICau arolygon, ac aeth rhai eraill ar ymweliadau rhithwir i gasglu safbwyntiau cleifion.

Cynhaliodd **CIC De Morgannwg 4** arolwg ar wasanaethau cludiant, gofal llygaid, fferyllfeydd a gwasanaethau cyn-filwyr, a chawsant gyfanswm o **646** o ymatebion. Gwnaethant gyhoeddi adroddiadau hefyd ar yr hyn a glywsant wrth ymweld â'r ysbytai lleol. Gallwch ddod o hyd i'r adroddiadau ar eu gwefan – <https://southglamorganchc.nhs.wales/what-we-have-to-say/report-library/>

Cynhaliodd **CIC Cwm Taf Morgannwg 2** arolwg rhwng Ebrill a Mehefin 2022 ar wasanaethau argyfwng iechyd meddwl i oedolion, ac amseroedd aros am lawdriniaeth ddewisol. Clywsant gan **305** o bobl. Gellir dod o hyd i gopi o'r adroddiadau hyn ar eu gwefan trwy glicio ar y ddolen hon - <https://cwmtafmorgannwgchc.nhs.wales/what-we-have-to-say/report-library/>

Cynhaliodd **CIC Hywel Dda** arolwg rhwng Ebrill a Mehefin 2022 ar brofiadau teuluoedd pan fydd eu plant yn yr ysbyty. Cawsant **108** o ymatebion. Byddant yn cyhoeddi'r adroddiad yn fuan.

Cynhaliodd **CIC Powys** arolwg rhwng 24 Mehefin a 3 Gorffennaf 2022, yn holi am fynediad at Ddeintyddion ym Mhowys. Cawsant **199** o ymatebion. Mae copi o'r adroddiad i'w weld yma – <https://powyschc.nhs.wales/files/report-library/access-to-dentists-july-2022/>



Rhwng Ebrill a Mehefin 2022, cyhoeddodd **CIC Aneurin Bevan 4** adroddiad, yn seiliedig ar yr arolygon a gynhaliwyd ganddynt yn y cyfnod hwn. Clywsant gan **313** o bobl am ofal dementia yn y gymuned, llawdriniaethau wedi'u canslo, gwasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol a phrofiadau cleifion yn ystod misoedd y gaeaf.

Buont hefyd yn ymweld â chleifion gofal lliniarol ac yn siarad yn uniongyrchol â **9** o bobl am eu profiadau, ac aethant ar ymweliad rhithwir ag Ysbyty Athrofaol newydd Y Faenor.

Gellir dod o hyd i gopi o'r adroddiadau hyn ar eu gwefan trwy glicio ar y ddolen hon –

<https://aneurinbevanchc.nhs.wales/what-we-have-to-say/report-library/>

Rhwng Ebrill a Mehefin 2022, clywodd **CIC Gogledd Cymru** gan **63** o bobl drwy eu harolygon, gan glywed am brofiadau pobl o'r pandemig, menopos, Deintyddion, a gwasanaethau'r GIG yn gyffredinol.

Derbyniodd **CIC Powys** bron i **600** o ymatebion i'w harolwg ar fferyllfeydd cymunedol. Gofynnwyd hefyd am farn pobl ynghylch mynediad at Ddeintyddion ym Mhowys, a chawsant **200** o ymatebion mewn wythnos. Bydd yr adroddiadau'n cael eu cyhoeddi ar eu gwefan yn fuan.

Cynhaliodd **CIC Bae Abertawe** arolygon ar ofal cleifion mewnol a chleifion allanol, a byddant yn cyhoeddi'r adroddiadau hyn ar eu gwefan yn fuan.

I gynhoi

Mae'r CICau'n parhau i glywed gan bobl am eu profiadau da a drwg o ofal iechyd yng Nghymru. Rydym yn gobeithio bod yr atborth y mae pobl wedi'i rannu yn helpu staff y GIG ac eraill i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn sy'n gweithio'n dda i bobl.

Rydym hefyd yn clywed am y pryderon, a'r oedi yn aml, y mae pobl wedi'u profi wrth geisio gweld Meddyg, Deintydd neu pan fydd angen gofal iechyd brys ac argyfwng arnynt – ac yn y ffordd y mae angen iddynt wneud, pan fydd angen.

Rydym yn clywed am y gwahaniaeth y mae'n ei wneud i bobl pan fyddant yn gallu cael mynediad at y gofal a'r driniaeth sydd eu hangen arnynt, y tro cyntaf. Mae'n helpu hefyd i atal yr angen am ofal neu driniaeth fwy dwys yn nes ymlaen.

Mae'r CICau a'r Bwrdd yn rhannu'r hyn maent yn ei glywed gan bobl yn eu cymunedau lleol a ledled Cymru gydag arweinwyr y GIG a llunwyr polisi o leiaf bob wythnos, fel y gall gwasanaethau iechyd ymateb yn gyflym i'r pethau sydd bwysicaf i bobl cyn gynted â phosib.

Mae cyrff y GIG a Llywodraeth Cymru wedi cymryd ystod o gamau mewn ymateb i'r pethau a glywsom rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022.



Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys:

- Yn ardal **Aneurin Bevan**, cymerodd y Bwrdd Iechyd Lleol gamau i gefnogi pobl sydd angen cymorth iechyd meddwl. Mae hyfforddiant llywio gofal wedi'i ddarparu i bob practis MT, fel bod derbynyddion practis yn gallu trefnu'r gweithiwr gofal proffesiynol gorau i ddiwallu anghenion pobl yn well.
- Yn ardal **Cwm Taf Morgannwg**, cymerodd y Bwrdd Iechyd Lleol gamau i ddarparu mwy o therapi grŵp ar wardiau ysbyty, i helpu cleifion i deimlo bod eu hanghenion ffisiotherapi a chymdeithasol yn cael eu diwallu'n well.
- Yn ardal **Caerdydd a'r Fro**, newidiodd y Bwrdd Iechyd Lleol eu cyfyngiadau ymweld ag ysbytai, o un ymwelydd am awr yr wythnos i ddau ymwelydd am awr y dydd.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y camau a gymerwyd gan Fyrddau Iechyd, sy'n ymateb i'r pethau y mae pobl wedi'u dweud yn eich ardal, ar wefan eich CIC lleol.

Yn genedlaethol, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym am rai o'r pethau yr oedd yn eu gwneud, a oedd yn ymateb i'r hyn y dywedodd pobl sydd angen ei wella. Roedd hyn yn cynnwys:

- cyflwyno'r llinell gymorth 111 yn llawn ledled Cymru, fel y gall pobl gael cyngor ar ofal iechyd 24/7
- mwy o arian a chynlluniau i wella gwasanaethau ar gyfer pethau fel gofal brys ac argyfwng, gweithredu i ddod ag amseroedd aros hir i ben, ymdrin â phrinder cenedlaethol triniaeth HRT, a chefnogaeth i weithwyr gofal cartref
- technoleg ddigidol newydd i gefnogi gwasanaethau i bobl â chlefyd cronig yr asennau, neu sydd angen cymorth iechyd meddwl

- canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer ymweliadau mewn gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.

Mae'r CICau'n parhau i bryderu am lawer o'r gwasanaethau y dywedodd pobl wrthym amdanynt yn ystod y cyfnod hwn. Maent wedi bod dan bwysau ers amser maith bellach – er gwaethaf ymdrechion pawb sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae hyn yn golygu bod gormod o bobl yn dal i gael trafferth i gael y gofal sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt, a sut mae ei angen arnynt. Bydd y CICau'n parhau i fonitro eu gwasanaethau GIG yn lleol, i weld a yw'r camau a gymerir gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i wella pethau yn gwneud y gwahaniaeth sydd ei angen.



Diolch

Diolchwn i bawb a rodd o’u hamser i rannu eu barn a’u profiadau gyda ni am eu gwasanaethau iechyd a gofal ac i rannu eu syniadau.

Diolchwn i’r staff gofal iechyd sy’n gweithio mor galed i ofalu am bobl a’u hanwyliaid wrth i ni gyd geisio adfer o’r pandemig.

Rydym yn gobeithio y bydd yr atborth y mae pobl wedi rhoi o’u hamser i’w rannu yn dylanwadu ar wasanaethau gofal iechyd, i gydnabod a gwerthfawrogi’r hyn y maent yn ei wneud yn dda – a chymryd camau lle mae angen iddynt wneud, cyn gynted ag y gallant, i wella pethau.

Atborth

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn am y cyhoeddiad hwn, ac unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallem fod wedi'i wella, fel y gallwn eu defnyddio i wneud ein gwaith yn well yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.



Manylion cyswilt



Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng
Nghymru
33 / 35 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HB



02920 235 558



enquiries@waleschc.org.uk



www.boardchc.wales



[@CHC_Wales](https://twitter.com/CHC_Wales)

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg.

Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.



Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru